



# **Adroddiad Blynyddol** **y** **Bwrdd Monitro Annibynnol** **yng**

## **Ngharchar Ei Mawrhydi CAERDYDD**

**ar gyfer Blwyddyn adrodd**  
**1 Medi 2018 hyd at 31 Awst 2019**

**Cyhoeddwyd**  
**Chwefror 2020**



*Monitro tegwch a pharch at bobl yn y ddalfa*

## TABL CYNNWYS

---

### Adrannau Rhagarweiniol

Adran	Pwnc	Tudalen
1	Swyddogaeth Statudol	3
2	Crynodeb Gweithredol	4
3	Disgrifiad o'r Sefydliad	6

### Adrannau Tystiolaeth

4	Diogelwch	7
5	Cydraddoldeb a Thegwch	9
6	Gwahanu/Uned Gofal a Gwahanu	11
7	Llety (gan gynnwys cyfathrebu)	12
8	Gofal iechyd (gan gynnwys iechyd meddwl a gofal cymdeithasol)	13
9	Addysg a Gweithgareddau Eraill	15
10	Gwaith, Hyfforddiant Galwedigaethol a Chyflogaeth	16
11	Paratoi ar gyfer Adsefydlu	18

	Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol	19
	Ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol	20

### 1 SWYDDOGAETH STATUDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL

---

Mae Deddf Carchardai 1952 yn galw ar i bob carchar gael ei fonitro gan Fwrdd Annibynnol a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o blith aelodau o'r gymuned lle lleolir y carchar neu'r ganolfan.

Yn benodol mae'n rhaid i'r Bwrdd:

- (1) fodloni ei hun ynghylch triniaeth ddyngarol a theg y sawl sydd dan glo yn eu carchar ac ystod a digonolrwydd y rhaglenni i'w paratoi ar gyfer eu rhyddhau.
- (2) adrodd yn ddi-oed i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu i unrhyw swyddog y mae wedi ymddiried awdurdod ynddo fel y gwêl yn briodol, am unrhyw bryderon sydd ganddynt.
- (3) **adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ba mor dda mae'r carchar wedi cyflawni safonau a diwallu'r gofynion a roddwyd arno a pha effaith mae'r rhain wedi eu cael ar y sawl sydd yn y ddalfa.**

I alluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol, mae gan ei aelodau hawl i fynediad at bob carcharor ac i bob rhan o'r carchar yn ogystal â chofnodion y carchar.

### Gwelliannau

---

Trawyd y bwrdd gan y gwelliannau sydd wedi'u gwneud i adeiladwaith yr adeilad, a'r gwelliant cyffredinol o ran glendid yn y carchar Sioraidd hwn. Yn ystod y flwyddyn adrodd cwblhawyd rhaglen i adnewyddu'r adenydd a'r celloedd. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys diweddarau'r dodrefn, peintio celloedd ac ardaloedd cyffredinol ynghyd ag ymdrech ar y cyd i gadw'r ardaloedd y tu mewn a'r tu allan yn lân. Arweiniodd hyn at welliant amlwg yng nghyflwr meddwl llawer o'r dynion. (Adran 7:1)

Gwelwyd gwelliant o ran mynediad at wasanaethau cymorth iechyd meddwl, maes a oedd wedi bod yn achos pryder i'r bwrdd, ac y cyfeiriwyd ato yn adroddiad 2017-2018. (Adran 8:1)

### Y prif feirniadaethau

---

1. Roedd nifer yr achosion o hunan-niweidio yn dal yn uchel er bod ymdrechion wedi'u gwneud i ymchwilio i'r rhesymau dros hyn. (Adran 4:1 a 3)
2. Er bod y carchar wedi ceisio sicrhau bod llai o gyffuriau yn dod i mewn i'r carchar, yn enwedig sylweddau seicoweithredol newydd (NPS), mae hyn yn dal i achosi llawer o anawsterau. (Adran 8:7)
3. Mynegwyd pryder bod unigolion yn cael eu cadw yng Ngharchar Ei Mawrhydi Caerdydd ar ôl i'w dedfryd ddod i ben. Roeddent dan anfantais hefyd gan fod dogfennau'r Swyddfa Gartref ar gael yn Saesneg yn unig, ac nid yn eu hiaith eu hunain, ac roedd anawsterau hefyd wrth geisio cysylltu â staff y Swyddfa Gartref. (Adran 5:7, Adran 7:4)
4. Roedd diffyg llety i unigolion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar yn dal i achosi cryn bryder yn y broses adsefydlu. Roedd cyfran fawr o'r dynion heb lety ar y diwrnod yr oeddent yn cael eu rhyddhau. Roedd hyn yn annynol, ac roedd hefyd yn un o'r prif ffactorau a oedd yn achosi iddynt aildroseddu. (Adran 11:8 a 9)

### Prif Feysydd Datblygu

---

#### I'R GWEINIDOG

Mae cadw unigolion yn y carchar ar ôl i'w dedfryd ddod i ben yn annerbyniol. Fodd bynnag, os nad oes modd newid hyn, dylai'r unigolion sydd yn y ddalfa gael mynediad rheolaidd at staff y Swyddfa Gartref a dylai'r Swyddfa Gartref ddarparu dogfennau mewn iaith sy'n briodol i'r unigolyn. Mae'r bwrdd yn gofyn i'r gweinidog ddwyn y mater hwn i sylw'r Swyddfa Gartref a rhoi copi o'r ymateb iddi. (Adran 5: 7 ac 8)

#### I LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

Mae'r bwrdd yn deall bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r her o sicrhau llety i ddynion sy'n gadael y ddalfa, ond gofynnwn i'r llywodraeth ddal i ganolbwyntio ar hyn a chynorthwyo Awdurdodau Lleol i ddarparu'r gwasanaeth hwn. (Adran 11:8 a 9)

#### I'R GWASANAETH CARCHAR

1. Mae angen dal i ganolbwyntio ar sicrhau nad yw cyffuriau'n dod i mewn i'r carchar. Er mwyn helpu'r sefydliad i ymdrin â'r mater hwn dylid rhoi blaenoriaeth i ddarparu technoleg gyfredol. (Adran 6: 7, Adran 8:7)
2. Mae amgylchedd ffisegol CEM Caerdydd wedi gwella'n sylweddol, ond mae heriau yn ymwneud â chynnal a chadw'r adeilad yn parhau. Dylid cydnabod yr heriau hyn a sicrhau digon o adnoddau ar eu cyfer. (Adran 7:2)

## **I'R LLYWODRAETHWR**

1. Mae'r bwrdd yn cydnabod y gwelliannau a wnaethpwyd gan y carchar yn ystod y flwyddyn adrodd, yn enwedig yng nghyswllt gwaith tîm a datblygu diwylliant sy'n ceisio helpu dynion i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar eu hymddygiad troseddu. (Adran 10:2 a 7)
2. Nodwyd bod mwy o graffu ar y Defnydd o Rym. Er mwyn sicrhau mwy o welliant, dylid atgyfnerthu'r angen i Swyddogion wisgo camerâu ar eu cyrff a'u hannog i wneud hynny. (Adran 4:8)
3. Ymddengys ar adegau bod cynrychiolaeth anghymesur o ddynion o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig yn y dyfarniadau ac yn yr Uned Gofal a Gwahanu. Efallai fod rhesymau dilys dros hyn, ond mae'r data'n awgrymu y byddai'n werth ymchwilio ymhellach i'r rhesymau. (Adran 5: 5 a 6)
4. Nid yw'r Uned Gofal a Gwahanu yn darparu data i'r Tîm Amrywiaeth a Chydraddoldeb. Oherwydd y pryder a fynegwyd ym mharagraff 3 uchod, dylai'r carchar ystyried dulliau o sicrhau bod y data hyn yn cael eu darparu'n rheolaidd. (Adran 5:6)
5. Roedd y dynion a oedd wedi cyflawni gweithredoedd hunan-niweidio'n dweud bod y ffordd roeddent yn cael eu trin gan y staff weithiau'n cyfrannu tuag at eu gweithredoedd hunan-niweidio. Mae hyn yn peri pryder i'r bwrdd ac yn galw am ddadansoddiad pellach. (Adran4:3)

Mae CEM Caerdydd wedi'i leoli yng nghanol y ddinas. Carchar Categori B i ddynion ydyw; carchar hyfforddi lleol sy'n gwasanaethu de-ddwyrain Cymru a chymoedd y de yn bennaf, er bod nifer cynyddol o garcharorion yn cael eu trosglwyddo iddo o garchardai yn Lloegr. Mae'n darparu'n bennaf ar gyfer carcharorion sydd wedi cael dedfrydau byrion, carcharorion ar remánd a charcharorion sy'n aros i gael eu dedfrydu. 539 yw trothwy Llety Arferol Ardystiedig y carchar, a 779 yw ei gapasiti gweithredol. Mae'r rhan fwyaf o'r celloedd yn dal dau garcharor. Agorwyd y carchar yn 1827 ac mae tair adain Sioraidd yn dal i ffurfio rhan helaeth o'r adeilad. O ganlyniad i raglen adnewyddu sylweddol yn 1996 agorwyd tair adain letya newydd. Mae'r carchar hefyd yn cynnwys nifer o adnoddau eraill, gan gynnwys campfa, gweithdai ac ystafelloedd dosbarth. Agorwyd canolfan gofal iechyd newydd ym mis Mai 2008, sy'n darparu 21 gwely.

Mae trefn arferol CEM Caerdydd yn cynnwys addysg amser llawn, cyflogaeth yng ngweithdai'r carchar a chyrsgiau hyfforddi. Mae yma uned adsefydlu sy'n cynnig Cwrs Datblygiad Personol a Chymdeithasol a chyrsgiau seiliedig ar waith i'r carcharorion.

Mae darparwyr cyhoeddus a masnachol amrywiol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau yn y carchar. Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sy'n darparu gwasanaethau iechyd. Darperir addysg a sgiliau gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru, ond cânt eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Amey sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r safle. Mae'r gwasanaethau eraill sy'n dibynnu ar ddarparwyr allanol yn cynnwys gwasanaethau hebrwng ac adsefydlu cymunedol. Mae nifer o sefydliadau gwirfoddol, megis Ymddiriedolaeth St Giles a PACT, yn darparu gwasanaethau hefyd.

### 4 DIOGELWCH

---

1. Roedd hunan-niweidio yn dal i beri cryn bryder yn y sefydliad. Yn 6 mis cyntaf y flwyddyn adrodd, yn dechrau ar 1 Medi 2018, roedd 301 o achosion o hunan-niweidio; yn 6 mis olaf y flwyddyn, a ddaeth i ben ar 31 Awst 2019, roedd 406 o achosion o hunan-niweidio. Roedd 327 o'r 406 hyn yn cael eu hystyried yn achosion "risg isel" a dim ond 1 oedd yn cael ei ystyried fel achos yn perthyn i'r categori difrifol. Roedd y ffigurau hyn hefyd yn cynnwys troseddwyd a oedd yn hunan-niweidio'n gyson iawn. Rhwng 2 Gorffennaf 2019 a 29 Awst 2019, niweidiodd 1 dyn ei hun 17 o weithiau, ac roedd yr achosion yn aml o fewn ychydig oriau i'w gilydd. Mae trafodaethau wedi cael eu cynnal er mwyn gweld beth yw'r ffordd orau o gynnig cefnogaeth ychwanegol i'r ychydig ddynion sy'n gwneud hyn. Ym mis Awst gwelwyd cynnydd yn nifer yr achosion o hunan-niweidio o ganlyniad uniongyrchol i israddio Cymhellion a Breintiau a Enillir (IEP).
2. Rhannwyd canfyddiadau cychwynnol y gwiriad sicrwydd Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm (ACCT), a gynhaliwyd ym mis Mawrth, gan y carchar â'r Rheolwyr Achosion ym mhob rhan o'r sefydliad. Roedd y canfyddiadau'n nodi meysydd ymarfer da a meysydd i'w gwella. Erbyn hyn mae taenlenni newydd wedi'u cyflwyno ar gyfer cofnodi agor ACCT. Mae'r system newydd wedi caniatáu i'r Tîm Dalfa Fwy Diogel fonitro tueddiadau ar unwaith, yn hytrach na dibynnu ar adroddiadau cyfnodol.
3. Ar ôl iddynt gyflawni gweithredoedd hunan-niweidio roedd ôl-drafodaeth yn cael ei chynnal gyda'r dynion ac roedd cefnogaeth ar gael gan y Tîm Diogelwch Rhanbarthol. Mewn ôl-drafodaeth gyda 22 o'r dynion a oedd wedi niweidio eu hunain yn fwriadol, dywedodd y dynion fod y ffordd yr oeddent wedi cael eu trin gan y staff wedi cyfrannu at yr hyn a wnaethant.  
Roedd y themâu cyffredin a godwyd gan y dynion yn cynnwys y canlynol:-
  - Roedd y staff yn ifanc;
  - Nid oedd y staff ar yr adain yn rheolaidd, felly roeddent yn llai tebygol o gynnig cefnogaeth;
  - Nid oedd y staff yn dangos llawer o gydymdeimlad mewn argyfwng neu pan oedd unigolyn dan bwysau;
  - Roedd materion Iechyd Meddwl yn ffactor o bwys hefyd.
4. Yn ystod y cyfnod adrodd llwyddodd CEM Caerdydd i sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer darpariaeth Iechyd Meddwl. Y gobaith yw y bydd hyn yn darparu rhagor o adnoddau i helpu i wella prosesau sgrinio a chefnogaeth ddilynol i ddynion yn y ddalfa.
5. Adolygwyd cyflwr pob cell ddiogel yn y sefydliad. Mae'r celloedd diogel wedi'u cynllunio ar gyfer y dynion hynny y mae perygl iddynt niweidio eu hunain, ond dim ond am gyfnod byr. Cafwyd amcangyfrif o gostau'r gwaith atgyweirio a gwella, a chwblhawyd y gwaith ym mis Awst 2019 â chymorth adnoddau ychwanegol gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi ar lefel ranbarthol.
6. Cafodd cyflwyniad i Gynrychiolwyr Cymunedau Mwy Diogel ei roi ar waith yn CEM Caerdydd ym mis Mai 2019 a nodwyd ei fod yn gweithio'n dda. Cafodd y cynrychiolwyr, a oedd i gyd yn garcharorion, hyfforddiant gydag adrannau megis Dyfodol (asiantaeth camddefnyddio sylweddau). Cynigiwyd cyfleoedd hefyd i gael NVQ mewn cyngor a chyfarwyddyd, yn dibynnu ar hyd y ddedfryd a chymeradwyo

diogelwch. Darparwyd hyfforddiant cyfryngu i 11 o bobl, a oedd yn cynnwys carcharorion a staff.

7. Bu 3 marwolaeth yn y ddalfa rhwng 1 Medi 2018 a 31 Awst 2019. Mae'n debyg mai marwolaeth naturiol oedd pob un, ond disgwylir canlyniadau cwêst.
8. Roedd nifer y digwyddiadau Defnyddio Grym yn dal yn uchel a chyrrhaeddwyd uchafbwynt o 75 achos ym mis Awst 2019. Roedd nifer yr achosion yn y misoedd blaenorol yn amrywio o 51 i 69. Roedd yr achosion yn cael eu hadolygu'n wythnosol ac arweiniodd hyn at gydnabod perfformiad rhai swyddogion, rhagor o hyfforddiant neu ymchwiliadau i ddigwyddiadau. Defnyddiwyd y canlyniadau dysgu wrth hyfforddi swyddogion. Yn anffodus, nid oedd y swyddogion yn gwisgo camerâu ym mhob digwyddiad, felly nid oedd darlun llawn o bob digwyddiad ar gael bob tro.
9. Mae lefelau trais yn CEM Caerdydd wedi parhau'n is na llawer o garchardai Categori B lleol eraill, â chyfartaledd o 21 ymosodiad y mis yn hanner cyntaf y cyfnod adrodd. Yn ôl Adroddiad Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ym mis Gorffennaf 2019, er bod lefelau trais mewn carchardai wedi bod yn codi at ei gilydd, nid oedd y lefelau yng Nghaerdydd wedi codi ers arolygiad yr Arolygiaeth yn 2016.
10. Mae dynion a oedd yn dangos ymddygiadau heriol, a'r rhai a oedd ag Adolygiadau ACCT cymhleth, wedi bod yn cael eu trafod yn fisol yn y Cyfarfod Ymyriadau Diogelwch. Roedd cofnodion yr adolygiadau hyn yn cael eu monitro'n rheolaidd gan y bwrdd a gwelwyd eu bod yn drylwyr.



1. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y maes hwn ers yr adroddiad diwethaf. Cynhelid cyfarfod o'r Tîm Amrywiaeth a Chydraddoldeb bob mis, ac roedd llywodraethwr a chynrychiolwyr o blith y carcharorion yn bresennol. Roedd y cyfarfod yn gweithredu'n rhagweithiol drwy adolygu polisi a gweithredu ar faterion a oedd yn codi o ddydd i ddydd yn y carchar. Roedd y grŵp yn ymwneud â goruchwyllo materion megis gweithredu Cynlluniau Personol Dianc mewn Argyfwng (PEEPS) ar gyfer carcharorion anabl a'r broses Ffurflen Cofnodi Digwyddiadau Gwahaniaethu (DIRF); roedd cyfreithiwr â chefnidir amrywiaeth cryf hefyd yn ymwneud â'r gwaith o fonitro'r broses.
2. Roedd swydd amrywiaeth a chydraddoldeb amser llawn wedi cael ei sefydlu. Roedd y swydd yn cael ei rhannu, ac roedd y ddau ddeiliad yn recriwtio cynrychiolwyr o blith y carcharorion i fod yn gyfrifol am faterion amrywiaeth ar bob adain ac yn sefydlu grwpiau ffocws ar gyfer Nodweddion Gwarchodedig. Roedd hysbysfyrdau cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'u trefnu'n dda ac yn gyfredol ym mhob adain bron.
3. Fodd bynnag, roedd angen datblygu ychydig ar agweddau ymarferol y gwaith o weithredu'r mesurau hyn. Yn aml iawn nid oedd y dynion na'r swyddogion yn gwybod pwy oedd cynrychiolydd amrywiaeth yr adain, ac weithiau roedd trosiant carcharorion yn golygu bod adain heb gynrychiolydd. Pan siaradwyd â'r cynrychiolwyr, roeddent yn swnio'n frwdfrydig ynglŷn â'u rôl, ond roedd yn cael ei disgrifio fel ymdrin â materion cyffredinol, ac nid oedd llawer o sylw'n cael ei roi i gydraddoldeb ac amrywiaeth.
4. Roedd y rhan fwyaf o'r cynrychiolwyr amrywiaeth o gefndir Prydeinig gwyn, a theimlai un cynrychiolydd Prydeinig du, er nad oedd hiliaeth amlwg, o'i gymharu â charchardai eraill y bu ynddynt, mai prin at ei gilydd oedd dealltwriaeth y dynion a'r swyddogion yng Nghaerdydd o bobl o gefndiroedd diwylliannol eraill. Mewn sgysiau ar yr adenydd, dywedodd carcharorion o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn CEM Caerdydd.
5. Roedd y Tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cael data monitro ym mhob cyfarfod, ac roedd rhywfaint o'r data'n cynnwys anghysonderau ymddangosiadol, yn enwedig mewn cysylltiad â hil. Roedd data monitro mis Mawrth 2019 yn dangos bod 3.4% o boblogaeth y carchar yn garcharorion Caribiaidd du a hil gymysg, o'i gymharu â 14.6% yn y cyhuddiadau roedd yn rhaid eu dyfarnu. Roedd data mis Mehefin 2019 yn dangos bod 2.8% o boblogaeth y carchar yn garcharorion Caribiaidd Prydeinig du a hil gymysg, o'i gymharu â 10% yn y cyhuddiadau roedd yn rhaid eu dyfarnu.
6. Nid oedd y Tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn derbyn unrhyw ddata yn ymwneud â'r Uned Gofal a Gwahanu. Roedd aelodau'r Bwrdd yn ymweld â'r uned yn rheolaidd. O edrych ar gyfanswm y carcharorion yn yr uned ar gyfer pob un o'r ymweliadau rhwng 8 Ebrill a 3 Mehefin 2019, roedd 33% o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig, o'i gymharu â chyfartaledd o 20% ym mhoblogaeth y carchar. Mae angen i'r carchar ymchwilio i'r anghysonderau hyn.
7. Roedd y Bwrdd yn bryderus iawn ynglŷn â sut yr oedd carcharorion a oedd yn cael eu cadw ar warantau IS91 y Swyddfa Gartref yn cael eu trin. Roedd y niferoedd yn y carchar yn amrywio; roedd pump ym mis Mawrth, un ar ddeg ym mis Mai a phump ym mis Awst. Yn aml iawn roedd y dynion hyn yn cael eu cadw yn y ddalfa am fisoedd ar ôl i'w dedfryd ddod i ben. Nid oedd ganddynt ychwaith wybodaeth gyfredol ynglŷn â sut roedd eu hachos yn dod yn ei flaen, ac mae hynny'n annerbyniol. Nid oedd y system ddiweddariadau misol yn gweithio mewn llawer o achosion; roedd un dyn a gysylltodd

â'r Bwrdd ym mis Awst heb gael diweddariad "misol" ers mis Mai. Roedd cyfnodau hir pan nad oedd un o swyddogion y Swyddfa Gartref wedi ymweld â'r carchar nac ateb ebyst yn gofyn am wybodaeth. Roedd y staff wedi dweud wrth un dyn a oedd yn dal yn y carchar chwe mis ar ôl i'w ddedfryd ddod i ben y "gallai'r cynrychiolydd mewnfudo ddod yr wythnos hon." Nid oedd gan y staff na'r dynion unrhyw syniad pryd yr oedd y cynrychiolydd hwn i fod i ymweld, felly nid oedd modd gwneud apwyntiadau.

8. Mewn un mis (Gorffennaf) gofynnodd chwe dyn am gymorth y Bwrdd Monitro Annibynnol. Roedd tri o'r dynion wedi derbyn llythyrau yn Saesneg gan y Swyddfa Gartref a oedd yn eu hysbysu y byddent yn cael eu hallgludo; roedd y llythyrau'n nodi mai hwn oedd eu cyfle i apelio. Yn ychwanegol at hyn, roedd y ffurflenni apelio ar gael yn Saesneg yn unig, ac roeddent yn cynnwys llawer o dermau cyfreithiol. Mae rhoi dogfennau hir yn ymwneud â'u hachos i'r dynion hyn, wedi'u hysgrifennu yn Saesneg yn unig, iaith nad oedd gan lawer ohonynt fawr o wybodaeth ohoni, yn annerbyniol. Mae peidio â darparu cymorth cyfreithiol yn ymwneud â'u hachos i'r carcharorion hyn, na chymorth i apelio, hefyd yn annerbyniol.
9. Roedd adeiladau'r carchar yn dal i achosi anawsterau difrifol i garcharorion a oedd ag anabledd corfforol. Roedd dynion a oedd yn defnyddio cadair olwyn yn dal i fethu â mynd i sawl rhan o'r carchar. Defnyddid Adain F ar gyfer dynion a oedd yn defnyddio cadair olwyn, ond nid oedd addasiadau digonol yn y celloedd, ac roedd gris i fynd i mewn i'r cawodydd.

1. Mae'r Uned Gofal a Gwahanu yn lleoliad ar wahân a hunangynhwysol. Mae'n cael ei staffio gan ddeg swyddog sydd wedi cael eu hyfforddi i safon uchel a gwelodd aelodau'r Bwrdd Monitro Annibynnol fod ganddynt agwedd gadarnhaol a llawn cydymdeimlad at y dynion a oedd yn eu gofal.
2. Roedd y bwrdd yn cael ei hysbysu ar unwaith os oedd rhywun newydd yn cyrraedd yr uned, a gwelwyd bod y gwaith papur yn drefnus yn ystod yr ymweliadau. Roedd y bwrdd yn fodlon bod y dynion yn cael cynnig popeth yr oedd ganddynt hawl iddo.
3. Roedd adolygiadau'n cael eu cynnal yn rheolaidd ar gyfer y rhai a oedd yn yr uned ac roedd y cyfansoddiad yn iawn. Roedd y bwrdd yn cael cyfle i arsylwi a chymeradwyo penderfyniadau'n derfynol. Rhoddid ystyriaeth bob amser i gadw cyfnodau mewn caethiwed cyn fyrred ag a oedd yn bosibl. Dim ond 2 ddyn a oedd wedi bod yn yr uned am fwy na 42 diwrnod ac roedd gwaith galwedigaethol yn cael ei ddarparu os gofynnid amdano.
4. Nid oedd protestiadau budr yn digwydd yn aml, ac roeddent yn cael eu trin yn briodol, gan gyfyngu mynediad i'r uned a darparu diogelwch rhag bio-beryglon. Roedd staff yn ymdrechu'n barhaus i annog dynion a oedd yn ymwneud â phrotestiadau budr i ddod â'r brotest i ben a chymryd cawod.
5. Un ffactor a oedd yn peri pryder, er bod capasiti'r carchar yn weddol sefydlog o hyd, oedd y cynnydd a welwyd y naill flwyddyn ar ôl y llall yn nifer y dyfarniadau dyddiol, system lle mae dyfarniad yn cael ei wneud pan dorrir rheolau'r carchar. Yn ystod y cyfnod, cofnodwyd 2639 o ddyfarniadau, a chyfeiriwyd 265 o'r achosion difrifol at Ddyfarnwr Annibynnol a oedd yn ymweld, ar gyfer y materion mwy difrifol. O'i gymharu â'r cyfnod adrodd blaenorol, gwelwyd 226 yn rhagor o ddyfarniadau, cynnydd o 12%. Mae'r cynnydd hwn y naill flwyddyn ar ôl y llall wedi parhau er gwaethaf ymdrechion i ymyrryd yn gynnar. Gellid priodoli rhywfaint o'r cynnydd i benderfyniad ym mis Mai 2019 i gyfeirio pob dyn a oedd yn mynd ar y netin at y Dyfarnwr Annibynnol.
6. Roedd dadansoddiad o'r troseddau yr ymdriniwyd â hwy yn dangos mai'r prif resymau dros wahanu dynion a gwneud dyfarniad oedd bod ag eitemau a oedd wedi'u gwahardd yn eu meddiant, gan gynnwys cyffuriau a ffonau, gwrthod cael prawf cyffuriau, a throseddau ymosod.
7. Roedd dynion â chyffuriau yn eu meddiant yn broblem barhaus, ac mae'r carchar wedi cymryd camau i geisio canfod sut mae'r cyffuriau'n dod i mewn i'r carchar; mae'r newidiadau hyn wedi cael rhywfaint o effaith gadarnhaol.
8. Mae ystadegau yn ymwneud â dyfarniadau a ddarparwyd i'r Tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, ac ystadegau'r bwrdd yng nghyswllt dynion sy'n cael eu cadw yn yr Uned Gofal a Gwahanu, yn awgrymu bod nifer anghymesur o ddynion o'r gymuned bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cael cyhuddiad sy'n rhaid ei ddyfarnu ac yn cael eu cadw yn yr Uned. (Adran 5: 5)

1. Mae adeiladwaith y sefydliad wedi gwella bob yn dipyn wrth i bob ardal gael ei hadnewyddu yn ystod y flwyddyn adrodd. Mae'r newidiadau sydd wedi'u gwneud yn ddiweddar yn amlwg, ac maent i'w canmol. Pan oedd materion yn cael eu dwyn i sylw'r uwch dîm rheoli gan y bwrdd roedd camau'n cael cymryd ar unwaith, bron bob amser, os oedd y gallu gan y carchar i wneud rhywbeth.
2. Mae'r dynion yn dal i orfod dygymod â gwaith plymio annigonol o bryd i'w gilydd, o ganlyniad i system wresogi henffasiwn y carchar. Drwy gydol y flwyddyn mae'r bwrdd wedi derbyn cwynion, o Adenydd A ac F yn fwyaf arbennig, ynglŷn â phroblemau â chawodydd neu ddim digon o ddŵr poeth. Yr ateb a roddid fel arfer i ymholiadau'r bwrdd oedd mai falf neu beipen oedd yn achosi'r broblem a'i bod yn "sortio'i hun!"
3. Roedd yn amlwg yn ystod y gwanwyn a'r haf bod yr ardaloedd y tu allan i'r carchar yn cael sylw'n rheolaidd. Roedd yr ardd yn yr adran Gofal Iechyd yn llawn planhigion amrywiol, ac roedd edrych arnynt yn therapiwtig. Er hyn, mynegid pryder yn rheolaidd bod gweithwyr yn yr ardd, dynion o Adain B1 yn bennaf, a oedd yn cynnwys carcharorion agored i niwed, bod dynion yn ystafell aros yr uned Gofal Iechyd gyfagos ar y llawr cyntaf yn cam-drin y gweithwyr ac yn poeri arnynt. Mae'r llywodraethwyr wedi cymryd camau i geisio atal hyn drwy addasu agoriadau'r ffenestri neu osod rhywbeth dros y ffenestri. Nid yw'r broblem wedi cael ei datrys, ond mae'n cael sylw.
4. Mewn ambell adain nid oedd cardiau adnabod a lluniau i'w gweld y tu allan i bob cell. Roedd Adenydd E ac F, yn fwyaf arbennig, yn cael eu monitro'n rheolaidd gan aelodau o'r Bwrdd Monitro Annibynnol a gwelwyd bod y defnydd o gardiau'n anghyson. Ar un landin ar Adain F ym mis Mehefin, roedd 80% o'r lluniau ar goll. Trosiant uchel y dynion yn y carchar oedd un o'r rhesymau a roddwyd gan y staff.
5. Adroddwyd y llynedd bod cyfleoedd i wneud ymarfer corff yn broblem i ddynion ar Adain B1. Sylwyd bod y drefn wedi cael ei haddasu er mwyn rhoi cyfle i'r dynion wneud ymarfer corff. Yn ogystal, dim ond unwaith y diwrnod y mae'r adain yn cael ei defnyddio fel coridor symud erbyn hyn. Yn ddelfrydol, ni fyddai hyn yn digwydd o gwbl, ond roedd y newidiadau'n cael eu croesawu.
6. Mae cyfathrebu â newydd-ddyfodiaid yn ystod y Cyfnod Sefydlu wedi cael ei fonitro gan aelodau o'r Bwrdd Monitro Annibynnol. Gwelwyd bod y sesiynau hyn yn amleiriog a bod rhai dynion yn ymddieithrio. Efallai y gellid defnyddio cyflwyniad PowerPoint i roi gwybodaeth i rai dynion, ond gwelwyd nad oedd yr ymgysylltu'n dda iawn, ac y byddai llawer o ddynion a oedd yn cael anhawster i ddarllen yn canfod eu hunain dan anfantais. Er hyn, cymerwyd camau i geisio gwella'r sefyllfa drwy gyflwyno fideo.
7. Ym mis Tachwedd 2018 canfu arolwg o ymwelwyr a gynhaliwyd gan y bwrdd fod 70% o'r ymwelwyr yn teimlo bod trefnu ymweliad yn dasg anodd, neu anodd iawn. Rhwng Chwefror ac Ebrill 2019, ni chafodd yr un o'r galwadau 'prawf' i'r llinell drefnu ymweliadau ei hateb (methiant 100%). Cyflwynwyd offer telefoni newydd ar 28 Mai 2019, ond nid yw'n ymddangos bod hyn wedi datrys y broblem.
8. Mae prydau bwyd wedi bod yn cael eu monitro'n rheolaidd a nodwyd bod cwynion yn brin iawn. Mae aelodau'r Bwrdd Monitro Annibynnol wedi bod yn blasu'r bwyd yn rheolaidd, ac maent wedi gwneud pwynt o fwyta'r bwyd yng ngŵydd y dynion. Roedd maint y dognau'n dderbyniol ar y cyfan ac roedd y bwyd yn cael ei ddosbarthu'n deg. Un broblem sy'n dal i fodoli yw cyndynrwydd rhai o'r staff gweini i wisgo hetiau neu orchudd barf.

## 8 GOFAL IECHYD (gan gynnwys iechyd meddwl a gofal cymdeithasol)

---

1. Yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2017-2018 mynegodd y bwrdd bryderon difrifol ynglŷn â gofal Iechyd Meddwl. Ym mlwyddyn adrodd 2018-2019 roedd y sefyllfa hon wedi gwella, ac roedd y tîm wedi'i staffio'n llawn. Er hyn, roedd nifer yr atgyfeiriadau'n uchel - tua 50-60 yr wythnos. Hysbyswyd y bwrdd mai'r amser aros cyfartalog ar gyfer asesiad gofal sylfaenol oedd 15 diwrnod, a gallai dynion a oedd ag atgyfeiriadau brys gael eu gweld ar ddiwrnod asesu'r atgyfeiriad. Roedd hyn o fewn targed Llywodraeth Cymru o 28 diwrnod, targed a gafodd ei fethu fwy nag unwaith yn 2017-2018. Fodd bynnag, mae apwyntiadau cychwynnol i weld seiciatrydd ar gyfartaledd wedi bod 10 wythnos ar ôl yr atgyfeiriad.
2. Yn ystod 2 fis olaf y flwyddyn adrodd bresennol dechreuodd y tîm Mewngymorth dreialu cynllun lle maent yn mynd i'r Adain Sefydlu yn y boreau i gwblhau elfen iechyd meddwl y rhaglen sgrinio iechyd eilaidd. Mae'r newid hwn wedi golygu y gall dynion sydd yn CEM Caerdydd am gyfnod byr, ond sydd ag angen iechyd meddwl wedi'i nodi, gael eu cyfeirio at wasanaethau cymunedol.
3. Yn achos y dynion hynny yr oedd angen eu trosglwyddo i Ysbytai Iechyd Meddwl, roedd yr amser aros rhwng atgyfeirio a throsglwyddo yn amrywio o 10 diwrnod i 4 mis, gan ddibynnu a oedd lle ar gael.
4. Mae'r bwrdd yn falch o weld bod adeiladwaith yr uned gofal iechyd wedi'i wella a bod camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r problemau lleithder yn yr adeilad. Gwelwyd gwelliannau hefyd yn ystafelloedd y clinigau, gyda'r ystafelloedd aros yn cael eu hadnewyddu a newid i'r arferion hebrwng fel bod dynion yn gorfod treulio llai o amser yn y manau aros cyn eu hapwyntiad.
5. Ar ôl blynyddoedd lawer mae'r uned gofal iechyd wedi gallu rhoi 2 wely o'r neilltu ar gyfer dynion sy'n ceisio cael gwared ar effeithiau alcohol o'u cyrff, ac mae hyn wedi gwella diogelwch y dynion hyn yn ystod eu diwrnodau cynnar yn y ddalfa.
6. Ym mis Chwefror 2019 cyflwynwyd Espranor yn lle Subutex. Mae Espranor yn toddi'n syth ar y tafod. Un o brif fanteision y newid yw bod modd atal yr arfer lle mae carcharorion yn cymryd arnynt eu bod yn cymryd meddyginiaeth, yna'n ei chuddio fel bod y sawl sydd wedi rhoi'r feddyginiaeth yn credu eu bod wedi ei chymryd. Mae hyn yn lleihau problemau yn ymwneud â diogelwch. Yn ogystal, gellir gweinyddu'r feddyginiaeth yn gyflymach ac nid oes angen treulio cymaint o amser yn cadw golwg ar ddynion ar ôl iddynt gymryd meddyginiaeth.
7. Roedd defnyddio sylweddau anghyfreithlon yn achosi anawsterau yn y carchar i'r swyddogion a'r dynion ar yr adain ac i'r staff gofal iechyd, sy'n gorfod ymdrin â'r argyfyngau meddygol dilynol. Mae Arolygwr Carchardai Ei Mawrhydi a'r Bwrdd Monitro Annibynnol wedi mynegi pryder ynglŷn â'r cyffuriau sydd ar gael yn CEM Caerdydd.

8. Yn ystod y flwyddyn adrodd mae'r dynion wedi tynnu sylw aelodau'r bwrdd at faterion yn ymwneud ag amseroedd aros am apwyntiadau nad ydynt yn rhai brys. Roedd ciplun o ystadegau yn ymwneud ag amseroedd aros rhwng Ebrill a Mehefin 2019 yn amrywio o gyfnod lleiaf o 13 diwrnod i gyfnod mwyaf o 34 diwrnod. Hyd yn oed ar gyfer achosion nad ydynt yn rhai brys, byddem yn awgrymu bod 34 diwrnod yn gyfnod annerbyniol i aros i gael gweld meddyg teulu, er bod y Bwrdd Iechyd Lleol yn dweud wrthym fod "hyn o fewn yr amser aros sy'n arferol yn y gymuned".
9. Cafwyd problemau staffio yn yr Uned Gofal Iechyd, yn rhannol gan nad oes llawer o gyfleoedd i'r staff ddatblygu eu gyrfa. Mae adolygiad o'r gweithlu wedi bod yn cael ei gynnal am ran helaeth o 2019. Er gwaetha'r prinder, mae'r staff nyrsio wedi dal i ddarparu gwasanaeth proffesiynol mewn maes anodd.

1. Mae'r ddarpariaeth addysg yn CEM Caerdydd yn dal i gael ei hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd gan y carchar gontract i ddarparu 5000 o unedau cymwysterau y flwyddyn a llwyddodd i gyrraedd y targed hwn neu ragori arno â chyfradd gadw a chyrhaeddiad o fwy nag 80%. O'r dynion hynny a ddechreuodd gwrs (heb gynnwys gadawyr y cytunwyd arnynt) aeth 70% ymlaen i gael cymhwyster wedi'i achredu.
2. Roedd sgiliau sylfaenol pob dyn yn cael eu hasesu pan oeddent yn cael eu derbyn i'r carchar a chynigid cyrsiau priodol i'w hanghenion iddynt. Roedd cyfleoedd amrywiol i bob dyn eu dilyn mewn sgiliau galwedigaethol neu analwedigaethol, a sgiliau hanfodol.
3. Roedd pob cwrs wedi cael ei achredu ac yn darparu cymhellion ar gyfer llwyddiant. Roedd gan y dynion a oedd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd â phwrpas iddo gynllun gwaith datblygiad personol a oedd yn aros gyda nhw pan oeddent yn newid lleoliad yn y carchar. Sylwodd aelodau'r Bwrdd fod y dynion yn mynegi cryn dipyn o fodlonrwydd â'u cyrsiau yn rheolaidd.
4. Sylwodd y Bwrdd yn aml ar waith rhagorol yn cael ei wneud mewn dosbarthiadau celf, cerddoriaeth ac amlgyfrwng, a gwelsant fod llawer o'r gwaith a oedd wedi'i wneud gan y dynion yn cael ei arddangos o amgylch y carchar. Roedd y rhan fwyaf o'r carcharorion yn teimlo bod gan y cyrsiau hyn werth therapiwtig, a byddent yn dweud yn aml nad oeddent yn gwybod bod ganddynt allu creadigol cyn mynd ar y cyrsiau hyn.
5. Rhoddid llawer o bwyslais ar rifyddeg a llythrennedd a gwneid defnydd da o becyn cymorth WEST (Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru) a'r Proffiliwr Do-It (offeryn sy'n nodi anghenion a heriau'r dynion yn gynnar yn eu dedfryd).
6. Er bod rhai dynion ar Adain B1 yn cael hyfforddiant sgiliau hanfodol, ac yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn sesiynau magu hyder, mewn grwpiau neu ar eu pen eu hunain, mae angen darpariaeth sgiliau hanfodol fwy trylwyr ar gyfer dynion ar Adain B1 ac Adain F1 o hyd, a bydd cynnydd tuag at hyn yn dal i gael ei fonitro'n ofalus yn y flwyddyn adrodd nesaf.
7. Roedd amrywiaeth da o lyfrau yn y llyfrgell, llyfrau ffeithiol a ffuglen, ac roedd y carcharorion yn gwneud defnydd da o'r cyfleuster hwn. Roedd cylchgronau addysgiadol ar gael hefyd.
8. Mae siartiau addysgiadol wedi cael eu harddangos yn yr adran addysg ac ar yr adenydd. Mae'r rhain yn dangos i'r dynion i ble y gallai cyrsiau arbennig eu harwain a pha gymwysterau sy'n bosibl.

1. Mae'r carchar wedi darparu amrywiaeth eang o weithgareddau yn ystod y flwyddyn gan gynnwys nifer o weithgareddau hanfodol sydd eu hangen er mwyn i'r sefydliad allu gweithredu'n rhwydd o ddydd i ddydd. Y targed ar gyfer darparu adnoddau i'r meysydd hanfodol hyn, sef pacio te, cynhyrchu (a oedd fel arfer yn cynnwys gwaith cydosod ar gyfer dyfeisiau electronig neu bacio cardfwrdd), golchi dillad ac ailgylchu, oedd 80%, a llwyddwyd i'w gyrraedd neu ragori arno'n gyson drwy gydol y cyfnod adrodd.
2. Roedd canran y dynion a oedd yn cymryd rhan yn yr holl weithgareddau yn 72% ar gyfartaledd. Cwblhawyd gwaith i fonitro ac adrodd am gyfraddau peidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau, neu wahardd o weithgareddau (e.e. oherwydd pryder yn ymwneud â diogelwch), ac arhosodd nifer yr absenoldebau annerbyniol yn sefydlog ar lefel o tua 5%.
3. Gwelwyd gostyngiad graddol yn nifer y rhai a gafodd eu gwahardd, o uchafswm o 110 ym mis Medi 2018 i isafswm o 59 yn Awst 2019, gostyngiad o 46% ar draws y cyfnod. Mae'r gostyngiad iach hwn yn debygol o fod wedi cael ei hybu gan gyfuniad o ymgysylltu â gweithiwr allweddol (sydd wedi cael ei roi ar waith yn raddol yn CEM Caerdydd), defnyddio Cymhellion a Breintiau a Enillir i annog dynion i gymryd rhan, a sylw parhaus gan reolwyr y carchar.
4. Bu'r Bwrdd yn edrych ar weithgaredd recriwtio ar gyfer cwrs Gwaith Stryd yn ystod mis Ionawr. Ymwelodd y Bwrdd â'r grŵp eto ym mis Awst ac roedd awyrgylch da iawn i'w weld. Roedd pob un o'r dynion y siaradwyd â hwy yn awyddus i gael gwaith o'r fath ar ôl cael ei ryddhau. Roedd y cwrs yn rhoi cyfle i'r dynion ddysgu'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn paratoi ac adeiladu pafinau a llwybrau troed i gerddwyr.
5. Sefydlwyd gweithdy canolfan alwadau newydd ym mis Mai â lle i 15 o ddynion. Mae'r adborth cychwynnol wedi bod yn gadarnhaol iawn. Mae'n rhy gynnar i fesur llwyddiant dynion i gael gwaith ar ôl cael eu rhyddhau, ond yn ôl y cwmni sy'n bartner mae cyfleoedd ar gyfer hunangyflogaeth yn bodoli. Ymwelwyd â'r grŵp ym mis Awst a gwelwyd galwadau'n cael eu trin yn effeithiol. Roedd o leiaf un dyn yn awyddus i gael gwaith o'r fath ar ôl cael ei ryddhau.
6. Roedd pedwar cohort (cyfanswm o 28 o ddynion) wedi cwblhau'r cwrs Barod i Weithio, sy'n paratoi dynion ag ystod eang o sgiliau meddalach er mwyn cael gwaith ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Mae ymdrechion wedi'u gwneud i gysylltu ag 14 o'r dynion sydd bellach wedi cael eu rhyddhau. Llwyddwyd i gysylltu â 50% o'r rhain, ac mae pob un ohonynt naill ai wedi cael gwaith neu mewn hyfforddiant / addysg.
7. Mae cyflwyno gweithwyr allweddol wedi cael effaith gadarnhaol ar nifer y dynion sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd sydd â phwrpas iddo. Roedd 74% o'r dynion yn cytuno bod eu gweithiwr allweddol wedi eu helpu i ymgysylltu (fel y nodwyd mewn arolwg ym mis Mai 2019). Mae'r hyb gweithgareddau wedi cysylltu â'r gweithwyr allweddol ar gyfer dynion sydd wedi bod yn methu â chael gwaith. Darparwyd holiadur ymgysylltu fel offeryn i'w ddefnyddio wrth gyfweld y dynion, a phan fydd wedi cael ei gwblhau, bydd hyn yn rhoi adborth gwerthfawr i'r hyb i'w helpu i nodi'r math o weithgaredd a fyddai'n addas i'r unigolyn.
8. Roedd monitro gweithgaredd sydd â phwrpas ar gyfer dynion ar Adain B1 (adain i garcharorion sy'n agored i niwed) yn dal yn faes gweithgaredd i'r Bwrdd Monitro



Annibynnol y llynedd. Ym mis Rhagfyr gwelwyd bod carcharorion agored i niwed, sydd wedi'u lleoli yn adain B1, yn gweithio yn y coridor fel grŵp yn pacio bagiau goroesi i'r fyddin. Roedd hwn yn weithgaredd poblogaidd ac roedd yn ymddangos bod y dynion yn hapus yn y gwaith a'u bod yn gallu gweld pwrpas ac ystyr iddo. Roeddent hefyd yn cael cynnig gwaith garddio yn rheolaidd, a gwaith arall ar yr adain o bryd i'w gilydd.

9. Ambell waith, fodd bynnag, pan oedd problemau'n codi, nodwyd mai gweithgaredd B1 oedd yr un cyntaf i gael ei effeithio. Er enghraifft, ym mis Awst, yn dilyn digwyddiad dros nos ar yr adain, ni ddarparwyd gweithgaredd y diwrnod canlynol gan fod y staff yn brysur yn ceisio datrys problemau anghytuno. Nid yw'n debygol y byddai hyn wedi digwydd pe bai ganddynt drefniadau arferol.

## 11 PARATOI AR GYFER ADSEFYDLU

---

1. Mae elfennau o Adsefydlu wedi cael eu gweinyddu gan Ymddiriedolaeth St Giles mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill. Yn ystod y deuddeng mis diwethaf cynyddodd nifer y staff St Giles sy'n gweithio yn y carchar o dri i ddeuddeg. Mae hyn wedi golygu y gall y gwasanaethau sy'n cael eu darparu fod yn fwy trylwyr ac effeithlon. Er enghraifft, maent wedi cael mwy o amser i edrych a yw'r gwiriadau cytunedig wedi cael eu gwneud ar gyfer carcharorion unigol gan asiantaethau eraill, gwasanaethau statudol weithiau, yn y carchar a'r tu allan iddo.
2. Fel rhan o hyn, mae dynion wedi bod yn cael eu hannog i baratoi ar gyfer yr adeg y byddant yn cael eu rhyddhau yn ystod eu dedfryd. Maent wedi gallu cael eu cyfeirio at y Ganolfan Byd Gwaith gan staff arbenigol sydd wedi'u lleoli yn y carchar ac maent hefyd wedi cael cyngor sylfaenol ynglŷn â budd-daliadau. Maent hefyd wedi cael cyfle i siarad â Shelter, Cymorth Tai a'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth.
3. Roedd Gyrfa Cymru yn ymweld â'r carchar ddwywaith yr wythnos ac roedd cyswllt da gyda'r tîm adsefydlu. Mae gweithdai y tu mewn i'r carchar wedi cael cyswllt da â swyddogion cyflogaeth ac mae cyflogwyr posibl wedi bod yn cael eu gwahodd i'r carchar yn rheolaidd.
4. Mae agor cyfrif banc i'r dynion cyn iddynt gael eu rhyddhau wedi bod yn weithgaredd poblogaidd. Agorwyd 198 o gyfrifon banc yn ystod y cyfnod adrodd. Darparwyd cymorth i lenwi ffurflenni a gwneud y gwaith cyfathrebu cychwynnol, ond mae rheoliadau a chyfyngiadau amser llym ar gyfer ceisiadau ac ar gyfer gweithredu'r cyfrif ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.
5. Agorwyd caffi ym mis Ionawr 2019 - Family Tree Cafe - a bydd unrhyw elw'n cael ei ailfuddsoddi gan yr Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai (PACT) mewn gwasanaethau a gynigir i'r dynion. Ym mis Mai 2019 crëwyd ardaloedd gwell ar gyfer ymweliadau digyswllt.
6. Cynhaliwyd ffair gyflogadwyedd ym mis Mawrth. Daeth nifer dda iawn iddi, gan gynnwys amrywiaeth o ddarpar gyflogwyr, sefydliadau addysgol ac elusennau. Aeth dau grŵp o tua 30 o ddynion iddi ac roedd y lefelau ymgysylltu'n gadarnhaol.
7. Parhawyd i roi cefnogaeth arbenigol i gyn-aelodau o'r lluoedd arfog drwy elusennau fel Help for Heroes, Care after Combat, Hire a Hero, SSAFA a'r Llang Brydeinig Frenhinol. Ym mis Ionawr 2019 cyrhaeddodd presenoldeb mewn sesiynau i gyn-filwyr ei lefel isaf erioed, sef 3 dyn. Ar ôl i swyddogion adsefydlu a swyddogion arweiniol gyfathrebu â chyn-filwyr, yn chwe mis olaf y flwyddyn adrodd, cynyddodd y niferoedd i 10-12 dyn ym mhob sesiwn.
8. Mae tai a llety ar ôl gadael carchar yn broblem fawr i'r dynion ac yn destun pryder i'r staff sy'n gweithio gyda nhw. Cynhaliwyd arolygon gan y Bwrdd yn 2018, ac yn 2019, a gwelwyd canlyniadau tebyg, sy'n awgrymu nad oes gwelliant. Cyfwelwyd y dynion cyn eu rhyddhau, ac yn y ddwy flynedd ddiwethaf dywedodd tua 44% ohonynt na wyddent ble y byddent yn cysgu y noson gyntaf y byddent yn rhydd.
9. O'r rhai a oedd heb unman i fynd, roedd rhai'n dychwelyd i'w cartrefi, rhai'n aros gyda pherthnasau neu ffrindiau, a rhai'n cysgu ar soffa. Roedd rhai'n gyndyn o ddefnyddio hosteli lleol gan fod gormod o risg. Mae Cynulliad Cymru wedi mynegi diddordeb mewn darpariaeth arbenigol ar gyfer y rhai sy'n gadael y ddalfa, ond nid oes tystiolaeth bod hynny wedi arwain at ganlyniadau ymarferol eto.

## C Adran – Gwaith y Bwrdd

---

<b>YSTADEGAU'R BWRDD Adroddiad 2018/2019</b>	
Nifer Aelodau'r Bwrdd a Argymhellir	17
Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddechrau'r cyfnod adrodd	11
Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd	15
Cyfanswm y nifer o ymweliadau â'r Sefydliad	557
Cyfanswm y nifer o ddigwyddiadau adolygu gwahanu a fynychwyd	45

## D Adran - Ceisiadau

Cod	Pwnc	Y flwyddyn adrodd gyfredol	Y flwyddyn adrodd flaenorol
A	Llety gan gynnwys y golchdy, dillad, ymolchi	20	37
B	Disgyblaeth gan gynnwys dyfarniadau, IEP, sancsiynau	2	5
C	Cydraddoldeb	10	10
D	Gweithgarwch pwrpasol gan gynnwys addysg, gwaith, hyfforddiant, llyfrgell, cyfundrefn, amser allan o'r gell	54	33
E 1	Llythyron, ymweliadau, ffonau, cyfyngiadau diogelu'r cyhoedd	30	86
E 2	Cyllid gan gynnwys tâl, arian preifat, gwariant	21	18
F	Bwyd a cheginau	3	5
G	Iechyd gan gynnwys gofal corfforol, meddyliol a chymdeithasol	63	44
H 1	Eiddo o fewn y sefydliad hwn	24	17
H 2	Eiddo yn ystod trosglwyddo neu mewn sefydliad neu leoliad arall	18	19
H 3	Cantîn, rhestr adnoddau, catalog(au)	16	7
I	Rheoli'r ddedfryd gan gynnwys HDC, ROTL, parôl, dyddiadau rhyddhau, ail-gategoreiddio	28	34
J	Pryderon staff/carcharorion, yn cynnwys bwlio	19	40
K	Trosglwyddiadau	23	21
	<b>Cyfanswm y ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol</b>	492	438